**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Craffu Perfformiad – Yr Amgylchedd Naturiol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 1 Medi 2020 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | S J Gallagher | M H Jones |
| I E Mann | H M Morris | C Richards |
| M Sherwood | W G Thomas | L J Tyler-Lloyd |

**Cynghorwyr eraill a oedd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mark Thomas | Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd |
| David Hopkins | Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau |
| Paxton Hood-Williams | Cofnod Rhif 28 yn unig |
| Yvonne Jardine | Cofnod Rhif 28 yn unig |
| Jeff Jones | Cofnod Rhif 28 yn unig |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Howell | Pennaeth Gwastraff, Glanhau a Pharciau |
| Paul Meller | Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol |
| Deb Hill | Arweinydd Tîm, Cadwraeth Natur |
| Bob Fenwick | Arweinydd Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd |
| Mike Sweeney | Arweinydd Tîm, Cynnal a Chadw Priffyrdd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): B J Rowlands

---

## 23 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni datganwyd unrhyw fuddiannau.

## 24 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 25 Cofnodion

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfodydd Panel Craffu Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol, a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2019, yn gofnodion cywir.

26 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

27 **Trafodaeth ynghylch Effeithiau Penodol i Wasanaeth/Gwersi Amgylcheddol yn sgîl pandemig COVID-19**

Cynhaliodd y Panel drafodaeth ar effeithiau amgylcheddol y pandemig ac unrhyw faterion a gwersi amgylcheddol sydd wedi codi yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Clywodd y Panel gan aelodau arweiniol y Cabinet a nifer o swyddogion perthnasol am y profiad dros y chwe mis diwethaf.

Roedd sgil-effeithiau niferus y pandemig yn cynnwys rhai agweddau cadarnhaol megis llai o lygredd aer o lai o deithio a gweithgarwch, mwy o ddefnydd o lwybrau beicio a manteision cyffredinol i fioamrywiaeth a mwynhad o fannau awyr agored lleol.

Trafododd y Panel hefyd faterion a oedd yn ymwneud â rheoli chwyn a sut, yn absenoldeb torri ymylon glaswellt a pharciau, y cofnodwyd cynnydd yn y bywyd gwyllt a welwyd gan y cyhoedd yn ystod y cyfyngiadau symud.

Canolbwyntiwyd ar y canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Pwysigrwydd mannau gwyrdd lleol
- Gweithgarwch chwistrellu chwyn cyffredinol, adnoddau a dewisiadau amgen posibl i'r defnydd o glyffosate
- Torri ymylon glaswellt a rhai ardaloedd dolydd mewn parciau yn llai aml, er mwyn gwella'r amgylchedd naturiol, cynefinoedd a bioamrywiaeth.
- Ymgysylltu â'r cyhoedd ar reoli chwyn ac ymylon glaswellt a'r posibilrwydd o gynnwys y Cyngor Cymuned
- Rhaglen plannu blodau gwyllt y cyngor
- Mwy o ddefnydd o lwybrau beicio
- Taflu sbwriel ac addysg sy'n ymwneud â'r mater hwn

Manteisiodd y Panel hefyd ar y cyfle i holi am y trên a ddaeth oddi ar y cledrau'n ddiweddar yn Llangennech a faint o danwydd diesel a ollyngwyd i Foryd Llwchwr a'r effaith amgylcheddol/ecolegol. Nododd y Panel ei bod yn rhy gynnar i ddweud gan fod asesiadau'n dal i gael eu cynnal gan asiantaethau arweiniol perthnasol.

Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am y ffordd ymlaen. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu mewnbwn

**CYTUNWYD** y byddai'r Panel yn ysgrifennu at Aelodau'r Cabinet gyda'i farn a'i argymhellion.

28 **Gwaith dilynol - Rhoi Argymhellion Ymholiad Craffu ar yr Amgylchedd Naturiol ar waith**

Aeth y Panel ar drywydd y gwaith i roi argymhellion yr Ymchwiliad Craffu ar yr Amgylchedd Naturiol ar waith. Darparodd Aelod y Cabinet dros Gyflawni a Gweithrediadau adroddiad i helpu'r Panel i asesu effaith yr adroddiad ymchwiliad craffu a dangos cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion y cytunwyd arnynt, ers penderfyniad y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019. Clywodd y Panel hefyd gan y swyddogion arweiniol, Paul Meller, Rheolwr Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd Naturiol, a Deb Hill, Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur.

Roedd y Panel yn falch o nodi o adroddiad Aelod y Cabinet gyfraniadau penodol at newid o ganlyniad uniongyrchol i'r ymchwiliad, a'r effaith a gafwyd. Er enghraifft, mae llawer mwy o bwyslais ar yr amgylchedd naturiol, yr adnoddau a bioamrywiaeth ac mae'r adroddiad craffu wedi bod yn ysgogiad ar gyfer newid.

Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi'u rhoi ar waith yn llawn ac y byddant yn parhau'n ymrwymiad hirdymor. Roedd rhai camau gweithredu heb eu cyflawni, ac yn amodol ar benodi swyddogion prosiect penodol a ariannwyd gan grantiau.

Canolbwyntiwyd ar y canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cynnydd o ran recriwtio Swyddog Bioamrywiaeth Adran 6 a swyddogion prosiect
- Penodi Ecolegydd Cynllunio dros dro rhan-amser
- Yr angen am fwy o gydweithio rhwng y cyngor a Chynghorau Cymuned
- Ymwybyddiaeth o waith y Gweithgor Bioamrywiaeth Corfforaethol
- Ein gwaith gydag ysgolion a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth

**Cytunwyd** ar y canlynol**:**

1. gwnaed cynnydd da o ran rhoi'r argymhellion ar waith ac o ran cwblhau gwaith i fonitro adroddiad yr ymchwiliad yn ffurfiol; a
2. bydd y Panel yn sylwi ar unrhyw faterion penodol sy'n peri pryder drwy ei weithgareddau monitro parhaus.

29 **Rheoli Risg Llifogydd Lleol - Diweddariad Blynyddol**

Cynhaliodd y Panel drafodaeth ar reoli perygl llifogydd lleol, a a fydd bellach yn destun monitro rheolaidd drwy'r Panel Craffu hwn.

Adroddodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, ynghyd â swyddogion arweiniol, i'r Panel am y profiad dros y flwyddyn ddiwethaf, gan roi enghreifftiau o achosion sylweddol o lifogydd, cynnydd o ran rheoli perygl llifogydd, a heriau.

Canolbwyntiwyd ar y canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Effaith newid yn yr hinsawdd - nifer yr achosion o lifogydd a'r cynnydd mewn amlder a difrifoldeb
- Ymchwiliadau i lifogydd
- Cyfrifoldebau'r cyngor mewn perthynas â llifogydd ar dir nad yw'n eiddo i'r cyngor

- Glanhau gylïau/draeniau ac amlder gwneud hyn– nodwyd bod peiriant gylïau ychwanegol wedi’i brynu
- Synergedd rhwng priffyrdd a gweithrediadau glanhau
- A oedd y cyngor yn gwario mwy ar ymatebion brys adweithiol yn hytrach na gwaith chynnal a chadw ataliol
- Cyfathrebu/gwybodaeth gyhoeddus am berygl llifogydd a llifogydd
- Adnoddau

Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am y ffordd ymlaen. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu mewnbwn

**PENDERFYNWYD** y byddai'r panel yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd gyda'i farn a'i argymhellion ar y mater o reoli perygl llifogydd lleol.

30 **Llythyrau**

Derbyniodd y panel yr ohebiaeth a anfonwyd gan y panel a'r ymateb a dderbyniwyd yn dilyn cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2019:

- Llythyr at/oddi wrth Aelod y Cabinet dros Reoli'r Amgylchedd a Chludiant.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.49 pm

**Cadeirydd**